OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2003 No. 993

# Rheoliadau'r Comisiwn Gwella Iechyd (Swyddogaethau) (Cymru) 2003

## RHAN III

CYNGOR NEU WYBODAETH AM DREFNIADAU LLYWODRAETHU CLINIGOL

**Y personau y gellir rhoi cyngor neu wybodaeth iddynt**

**3.**—(1) Rhaid i'r Comisiwn ddarparu cyngor neu wybodaeth am drefniadau llywodraethu clinigol —

(a) i'r Cynulliad Cenedlaethol;

(b) i gyrff GIG; ac

(c) i ddarparwyr gwasanaethau.

(2) Rhaid i'r Comisiwn gydymffurfio ag unrhyw gais gan y Cynulliad Cenedlaethol i ddarparu cyngor neu wybodaeth am agweddau penodol ar drefniadau llywodraethu clinigol —

(a) i'r Cynulliad Cenedlaethol;

(b) i gyrff penodol GIG; neu

(c) i ddarparwyr gwasanaethau penodol.

(3) Caiff y Comisiwn ddarparu cyngor neu wybodaeth am drefniadau llywodraethu clinigol i unrhyw berson neu gorff arall sy'n gofyn am gyngor neu wybodaeth o'r fath.

**Arfer y swyddogaeth darparu cyngor neu wybodaeth am lywodraethu clinigol**

**4.** Wrth arfer ei swyddogaethau o dan adran 20(1)(a) o'r Ddeddf a rheoliad 2(a) a (b) o'r Rheoliadau Swyddogaethau, rhaid i'r Comisiwn ystyried —

(a) unrhyw ganllawiau sy'n ymwneud â threfniadau llywodraethu clinigol a roddir gan y Cynulliad Cenedlaethol neu'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol(**1**);

(b) unrhyw gyngor neu ganllawiau sy'n ymwneud â threfniadau llywodraethu clinigol a roddir gan unrhyw gorff sy'n gyfrifol am reoleiddio proffesiwn gofal iechyd.

(**1**) *Gweler*O.S.1999/220 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1999/2219.